## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (FFORDD OSGOI CAERNARFON, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, ger y Bontnewydd, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor o'r enw Ffordd Osgoi Caernarfon sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Plas Menai hyd at ei chyffordd â Chylchfan Meifod, Gwynedd.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de o Gylchfan Plas Menai yw mynd ar yr A4871 drwy Gaernarfon i ailymuno â'r A487 wrth Gylchfan Meifod. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd o Gylchfan Meifod.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Gibyn yw mynd ar yr A4086 Ffordd Llanberis, parhau drwy Gylchfan yr A4086 ac ymuno â'r A4871 wrth Gylchfan Dewi Sant. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Daw'r Gorchymyn i rym am 22:00 o'r gloch ar 25 Medi 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol tan 06:00 o'r gloch ar 26 Medi 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A487 TRUNK ROAD (CAERNARFON BYPASS, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road, near Bontnewydd, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A487 Fishguard to Bangor trunk road known as the Caernarfon Bypass that extends from its junction with the Plas Menai Roundabout to its junction with Meifod Roundabout, Gwynedd.

The alternative route for southbound traffic from Plas Menai Roundabout is via the A4871 through Caernarfon to rejoin the A487 at Meifod Roundabout. Vice versa for northbound traffic from Meifod Roundabout.

The alternative route for westbound traffic from Cibyn is via the A4086 Llanberis Road, continue through the A4086 Roundabout and join the A4871 at St David's Roundabout. Vice versa for eastbound traffic.

The Order comes into force at 22:00 hours on 25 September 2025. The temporary prohibition is expected to operate overnight until 06:00 hours on 26 September 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government